



# Cardiau Ffeithiol **Tryweryn**

Tryweryn



Capel Celyn oedd enw pentref bach yng Nghwm Tryweryn, yng Ngogledd Cymru.

Tryweryn



Roedd Capel Celyn yn bentref tawel gydag ysgol, swyddfa bost, capel, mynwent, ffermydd a bythynnod.

Tryweryn




Yn 1955, penderfynodd aelodau Cyngor Dinas Lerpwl eu bod am foddi Cwm Tryweryn er mwyn darparu dŵr i'w dinas.




Protestiodd y bobl yn ffyrnig am dros 10 mlynedd yn erbyn boddi Cwm Tryweryn.



Yn gyntaf, aeth 70 o bentrefwyr i Lerpwl ar 21ain o Dachwedd 1955, gyda Gwynfor Evans, Llywydd Plaid Cymru, yn eu harwain mewn protest.









Er gwaethaf eu protestio, pleidleisiodd y cynghorwyr o 94 i 1 dros barhau'r cynllun i foddi'r cwm.



Ar 29ain o Fedi 1956, daeth 4000 o bobl at lan yr afon Tryweryn i brotestio.





Er gwaethaf y protestiadau ar lannau Tryweryn, erbyn 31ain o Orffennaf 1957, pasiwyd Deddf Seneddol Corfforaeth Lerpwl, gan ganiatáu boddi'r dyffryn.






Ar 22ain o Fedi 1962, ceisiodd David Pritchard a David Walters ddinistrio'r peiriannau oedd ar y safle er mwyn stopio'r gwaith, ond fe'u harestiwyd.




Yn 1963, arestiwyd Emyr Llywelyn Jones, Owain Williams a John Albert Jones oherwydd iddynt osod ffrwydryddion ar yr argae, gan achosi difrod mawr.






Wrth i'r plant fynd i'r ysgol roedd yn rhaid iddynt gerdded heibio peiriannau mawr a oedd yn dymchwel cartrefi a choed. Pan oeddent yn y dosbarth, roeddent yn gallu teimlo'u desgiau'n crynu gyda sŵn y drilio.




Tryweryn



Collodd 70 o bobl eu cartrefi. Symudwyd popeth o'r cwm a gorffennwyd adeiladu'r argae. Yn 1965 gadawyd y dŵr i mewn, gan foddi'r cwm.

Tryweryn



Darganfuwyd nad oedd Cyngor Lerpwl wedi bod yn defnyddio'r dŵr i gyflenwi eu dinas, ond yn hytrach roeddent wedi bod yn ei werthu i siroedd eraill er mwyn gwneud arian.

Tryweryn

Yn 2005, ymddiheurodd Cyngor Lerpwl yn swyddogol am foddi Tryweryn.



Tryweryn

Mae'r arwyddair 'Cofiwch Dryweryn' i'w weld wedi'i beintio fel graffiti ar wal hen fwthyn sydd ar yr A487 ger Llanrhystud, Aberystwyth.



Tryweryn

Ar ôl i'r wal gael ei fandaleiddio yn Chwefror 2019, aeth nifer o bobl ati i beintio waliau ac arwyddion ei hun ledled Cymru gyda'r geiriau 'Cofiwch Dryweryn'.

